# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2018

Amser: 08. - 09.30

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd Neil Hamilton ei ymddiheuriadau, gan ei fod mewn Gwasanaeth Coffa yn Llundain. Roedd Gareth Bennett yn bresennol fel dirprwy.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Nid oes unrhyw bwnc wedi'i gyflwyno ar gyfer y Ddadl Fer. Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cwestiynodd y Rheolwyr Busnes yr amser a ddyrannwyd i ddatganiadau llywodraeth ar 27 Tachwedd, gan fod rhywfaint o fusnes y Cynulliad wedi symud i'r diwrnod hwnnw i wneud lle ar gyfer y ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn ystod amser y Cynulliad ar 5 Rhagfyr. Dyrennir 30 munud bellach i'r datganiadau canlynol:

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Y diweddaraf ar Gynllun Cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol
- Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Y diweddaraf ar Weithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mawrth 20 Tachwedd 2018**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Diwrnod Byd-eang y Plant y Cenhedloedd Unedig (30 munud)

### Dydd Mawrth 27 Tachwedd 2018

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

### Dydd Mercher 5 Rhagfyr 2018 -

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 3.4 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: cais am ddatganiad ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

## 3.5 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

- Detholodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 21 Tachwedd:

**NNDM6862 - Bethan Sayed**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod cyllid ar gyfer addysg bellach wedi bod o dan bwysau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i doriadau cyllidebol.

2. Yn nodi bod y sector addysg bellach wedi'i osod o dan bwysau ychwanegol, yn rhannol oherwydd polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dysgu gydol oes, sgiliau a chyflogadwyedd, a gafodd eu hegluro yn y cynllun cyflogadwyedd diweddar a ddiweddarwyd gan ddatganiad ysgrifenedig ym mis Medi 2018.

3. Yn mynegi pryder bod staff mewn sefydliadau addysg bellach yn ystyried mynd ar streic dros gyflogau annigonol a phryderon ynghylch llwythi gwaith trwm.

4. Yn cynnig na ddylai fod unrhyw ostyngiad pellach o ran faint o arian a dderbynnir gan y sector addysg bellach ac y dylid cydnabod ei safle fel allwedd i gynhyrchiant, sgiliau, hyfforddiant a chyflogadwyedd yn economi Cymru.

**Cefnogwyr**:

Mohammad Asghar
Siân Gwenllian
Helen Mary Jones

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at pryd y dylid amserlennu'r Ddadl Aelodau nesaf yr wythnos nesaf.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cyllid: Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymestyn dyddiad cau Cyfnod 2 i 8 Chwefror 2019.

### 4.2 Amserlen ar gyfer ystyried y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio Bil Deddfwriaeth (Cymru) at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'w ystyried.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a dod yn ôl at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.3 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: LCM Bil Amaethyddiaeth y DU

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar yr LCM i 4 Ionawr 2019. Nododd yr Aelodau sylwadau'r Pwyllgor ynghylch amserlennu LCMs ac argaeledd Gweinidogion ar gyfer craffu.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Effaith Aelod yn ymddiswyddo ac yn gadael grŵp

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur a chytunodd y dylid cynnal trafodaethau pellach y tu allan i'r pwyllgor, gyda'r bwriad bod y cynnig i lenwi'r lle gwag yn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cael ei gyflwyno a'i ystyried yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos hon.

## 6 Busnes y Cynulliad

### 6.1 Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad

Ailadroddodd y Llywydd ei bwriad i alw UKIP yn olaf ar gyfer Cwestiynau'r Arweinwyr a Llefarwyr gofyn i'r Ceidwadwyr a Phlaid bob yn ail gyda'r gymhareb 6:5, fel y rhai cyntaf i ofyn cwestiynau, gan ddechrau'r wythnos hon.

Cytunodd Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y ddau gynnig arall o ran newid nifer y cwestiynau a ofynnir ac amseriad.

### 6.2 Trefniadau cyflwyno dros y Nadolig

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer toriad y Nadolig.

## Unrhyw fater arall

Dywedodd Gareth Bennett wrth y Rheolwyr Busnes yr hoffai UKIP ail-enwebu Neil Hamilton fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad. Nododd y Rheolwyr Busnes eto nad oedd ganddynt unrhyw reswm i feddwl y byddai eu haelodau'n pleidleisio'n wahanol yn y Cyfarfod Llawn y tro hwn, ac felly cytunodd nad oedd unrhyw ddiben i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig o'r fath. Gan hynny, dywedodd Gareth Bennett wrth y Rheolwyr Busnes yr hoffai UKIP enwebu David Rowlands fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad, a

chytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i'w ychwanegu i agenda'r Cyfarfod Llawn fory.

Dywedodd hefyd wrth y Rheolwyr Busnes yr hoffai UKIP enwebu David Rowlands fel aelod arall o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Bydd cynnig yn cael ei gyflwyno a'i ychwanegu i agenda'r Cyfarfod Llawn yfory.